

## “Cristnogion Diwylliedig”

*“Yna, bu imi gydnabod fy mhechod wrthyt, a pheidio â chuddio fy nrygioni; dywedais, ‘Yr wyf yn cyffesu fy mhechodau i’r Arglwydd’; a bu i tithau faddau euogrwydd fy mhechod.” (adn. 5)*

### Beth am ddarllen Salm 32:1–11 ac yna myfyrio

Heddiw, rhaid gofyn y cwestiwn: Sut mae eglwysi sy’n osgoi’r ffaith fod gwŷr a gwragedd yn bechaduriaid yn delio gyda’r rhai sydd â hiraeth dwfn i chwilio am Dduw?

Un o’r ffyrdd mwyaf cyffredin yn yr eglwysi hyn yw dysgu fod pawb yn y bôn yn hiraethu ac yn dymuno adnabod y dwyfol. Fe wahoddir pobl i ofyn i Dduw anadlu ar yr hiraeth mewnlol yma, gan ganiatáu iddo fflamio i fyny mewn bywyd o addoliad a chariad tuag ato. Canlyniad y math yma o ddysgu yw cynhyrchu’r hyn a alwodd rhywun yn ‘Gristnogion Diwylliedig’ – pobl sydd yn mynnu ceisio dilyn Crist yn hytrach na chaniatáu i fywyd Crist gael ei roi yn eu bywyd hwy drwy’r Ysbryd Glân.

Mae i efelychu ei derfynau. Gyda’r ewyllys gorau yn y byd, ni allaf lwyddo i gopïo dawn lenyddol Shakespeare, neu ddawn siarad Winston Churchill. Mae’r math yma o ragoriaeth y tu hwnt i mi. Ac os na allaf gopïo dyn ar ei orau, sut yn y byd y medraf efelychu’r Arglwydd Iesu? Os na allaf efelychu clyfrwch dynol, sut yn y byd mae’n bosibl i mi efelychu cymeriad dwyfol? Mae hyn yn amlwg yn amhosibl – os yw yn wir mai dyma ddymuniad Duw yn ei gynnig. Ond nid dyna yw’r dymuniad yn ôl y Gair.

Er mwyn cyflawni ynom y newid sy’n caniatáu i ni gael ein cydymffurfio â’i gymeriad ei hun, mae Crist yn cynnig ei hunan. Yn gyntaf, fel y dywed y salmydd yn ein darlleniad heddiw, rhaid i ni gyffesu ein pechod. Ac, yn ôl yr apostol Ioan, “Os cyffeswn ein pechodau, mae Duw yn ffyddlon ac yn gyfiawn ac fe faddeua i ni ein pechodau a’n puro o bob anghyfiawnder.” Cyffes o bechod yw’r cam cyntaf tuag at iachawdwriaeth. Mae’r Beibl yn gwbl glir ynglŷn â hyn: os nad oes cyffes, does dim iachawdwriaeth. Ynglŷn â hyn, nid oes dim dadl.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 38:18; 51:1–18

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd gofid y salmydd?
2. Beth oedd testun a byrdwn ei weddi?

### Gweddi

O Dad, yn yr eglwysi lle mae’r ffaith fod y gyffes o bechod, fel yr hyn sy’n rhagflaenu iachawdwriaeth, yn rhywbeth sy’n cael ei guddio, tyrd â’r gwirionedd i’r goleuni. Rwy’n gweddïo hyn yn enw Iesu. Amen.